



# **Prif Ysgoloriaeth**

## **Amodau a Thelerau**

### **2021/2022**

#### **Cyflwyniad**

**Mae'r amodau a thelerau sydd yn y ddogfen hon yn derfynol ar gyfer pob Prif Ysgoloriaeth fydd yn cael ei rhoi yn y flwyddyn academaidd 2021-2022.**

Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yr hawl i newid yr amodau a thelerau yn y dyfodol a gwneud penderfyniadau polisi ychwanegol ar unrhyw fater sydd y tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei gynnwys yma

Mae gwerth y Prif Ysgoloriaethau wedi eu nodi isod, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cadw'r hawl i amrywio gwerth yr ysgoloriaethau

Yn ogystal ag amodau a thelerau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae gan brifysgolion Cymru hawl i osod amodau a thelerau ychwanegol.

## Rheolau Cyffredinol y Brif Ysgoloriaeth

Mae croeso i unigolion sydd wedi cyrraedd 17 oed ac sy'n gwneud cais i astudio mewn prifysgol yng Nghymru yn 2021/22 wneud cais am Brif Ysgoloriaeth y Coleg.

Rhaid i bob myfyriwr sy'n derbyn y Brif Ysgoloriaeth astudio o leiaf 66% o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

Hyd y Brif Ysgoloriaeth fel arfer yw tair blynedd. Os yw myfyriwr yn astudio cwrs gradd pedair blynedd, bydd y Brif Ysgoloriaeth ar gael am dair o'r blynyddoedd hynny

Mae pob Prif Ysgoloriaeth sy'n cael ei rhoi yn ddibynnol ar dderbyn cadarnhad bod myfyriwr yn astudio cwrs gradd amser llawn neu ran amser. Bydd y Coleg Cymraeg yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd yn gweithio, ac yn gwneud cais am gwrs rhan amser.

Bydd y Brif Ysgoloriaeth yn cael ei rhoi i astudio cwrs gradd benodol mewn prifysgol benodol. Mae myfyriwr sy'n derbyn y Brif Ysgoloriaeth yn gallu gwneud cais i drosglwyddo ysgoloriaeth. Os yw'r ddwy brifysgol berthnasol yn cytuno, bydd y Coleg Cymraeg yn caniatáu i fyfyrwr drosglwyddo'r ysgoloriaeth o un brifysgol i'r llall

Mae gan y Coleg Cymraeg yr hawl i wrthod cais am ysgoloriaeth neu ddod ag ysgoloriaeth i ben.

**Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n derbyn Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wneud y canlynol:**

- **Astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn**

## Chwilotydd Cyrsiau

Rhaid defnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg Cymraeg i wneud yn siŵr bod y cwrs yn gymwys ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth (Arwydd £).

Mae rhai cyrsiau yn gymwys ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth ac Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg. Mewn achos o'r fath, gwnewch gais ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth yn unig

Bydd unrhyw geisiadau aflwyddiannus ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau yn cael eu hystyried yn awtomatig ar gyfer yr Ysgoloriaethau Cymhelliant, os yw'r cwrs yn gymwys am ysgoloriaeth o'r fath, felly ni fydd angen gwneud dau gais.

## Prif Ysgoloriaeth

Mae pob Prif Ysgoloriaeth yn £1,000 y flwyddyn (£3,000 dros hyd y cwrs)

Bydd rhaid i bob myfyriwr sy'n derbyn Prif Ysgoloriaeth gan y Coleg astudio o leiaf **66% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn**

**Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am Brif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wneud y canlynol:**

- Defnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg i wneud yn siŵr bod y cwrs yn gymwys ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth
- Ymaelodi fel darpar fyfyrwr ar wefan y Coleg
- Llenwi atodiad A a/neu B o'r ffurflen gais os ydych yn gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor neu Aberystwyth ac anfon y cwbl yn ôl at y Coleg Cymraeg Cenedlaethol trwy'r wefan.
- Darllen dogfen Amodau a Thelerau Prif Ysgoloriaeth y Coleg
- Cwblhau'r ffurflen gais yn Gymraeg

## Ysgoloriaethau Eraill

Ni fydd myfyrwyr yn cael derbyn mwy nag un ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg ar yr un pryd

Bydd hawl gan fyfyrwr wneud cais am ysgoloriaethau y mae prifysgolion yn cynnig hefyd, ond y prifysgolion fydd yn penderfynu a fydd myfyrwr yn cael derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg yn ogystal ag ysgoloriaeth gan y brifysgol. Ym mhob achos, rhaid i'r myfyrwr gysylltu â'r brifysgol berthnasol gydag unrhyw gwestiynau.

**\*Os ydych yn dod o ardal Gwynedd, a bod eich cwrs yn un a ellid ei astudio 100% trwy gyfrwng y Gymraeg, fe fydd eich cais yn cael ei ystyried hefyd ar gyfer Ysgoloriaeth Cyngor Gwynedd.**

**\*Os ydych yn ymgeisio am gwrs Cyfraith, a'ch bod yn dod o ardal Rhondda Cynon Taf neu Meirionnydd, fe fydd eich cais yn cael ei ystyried ar gyfer Ysgoloriaeth Gwilym Prys Davies.**

## Proses Ddyfarnu'r Brif Ysgoloriaeth

Ar ôl y dyddiad cau bydd y Coleg Cymraeg yn anfon ceisiadau'r Brif Ysgoloriaeth at y prifysgolion

Y prifysgolion fydd yn dewis y ceisiadau llwyddiannus felly rhaid cysylltu â'r brifysgol berthnasol gydag unrhyw gwestiynau

Gyda phob ysgoloriaeth fydd yn cael ei rhoi, bydd gan y prifysgolion amodau mynediad ar wahân

Bydd pob prifysgol yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod modd astudio o leiaf 66% o bob cwrs sy'n gymwys ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Os nad yw prifysgol yn gallu cynnig nifer penodol o gredydau i fyfyrwr astudio drwy'r Gymraeg, ni fydd y Coleg yn cymryd cyfrifoldeb dros hyn. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid i'r brifysgol gysylltu gyda'r Coleg yn syth i ddweud nad ydynt yn gallu cynnig y credydau sydd angen drwy'r Gymraeg. Rhaid i'r brifysgol wedyn gysylltu gyda'r myfyrwr i esbonio'r sefyllfa

### **Prifysgol Bangor:**

Bydd y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis trwy system arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Bangor, a bydd rhaid i fyfyrwr sy'n gwneud cais i **Brifysgol Bangor gwblhau Atodiad A o ffurflen gais Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg**

### **Prifysgol Aberystwyth:**

Bydd y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis trwy system arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Aberystwyth, a bydd rhaid i fyfyrwr sy'n gwneud cais i **Brifysgol Aberystwyth gwblhau Atodiad B o ffurflen gais Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg**

### **Pob Prifysgol arall:**

Bydd y ceisiadau yn cael eu dewis drwy broses mewnol yn y Prifysgolion. Bydd y Prifysgolion yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i fyfyrwr ar ôl derbyn y ceisiadau

Ar ôl i'r prifysgolion ddod i benderfyniad, byddant yn anfon rhestr o ymgeiswyr llwyddiannus y Prif Ysgoloriaethau at y Coleg Cymraeg.

## Proses Dalu Prif Ysgoloriaeth

Bydd y Coleg yn cysylltu gyda'r prifysgolion i wneud yn siŵr fod y myfyriwr yn astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar ôl derbyn cadarnhad gan y brifysgol bod y myfyriwr yn astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Coleg yn trefnu talu'r Brif Ysgoloriaeth yn uniongyrchol

Bydd yr arian fel arfer yn cyrraedd cyfrif banc y myfyriwr ddiwedd mis Mawrth.

## Gwneud cais

Rhaid gwneud cais am Brif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg erbyn **10 Ionawr 2021**.

Dylid cwblhau'r ffurflen gais ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch gyda'r Coleg Cymraeg trwy ffonio 01267 610400.

Ni fydd ffurflenni cais sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael eu derbyn.

Bydd y Coleg yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus erbyn **30 Ebrill 2021** cyn cyhoeddi rhestr o'r enwau ar wefan y Coleg.